CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Chwefror 2021, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Roberts, A Wyn, E Williams, W Williams, W Vaughan, A Williams, A C Jones, G D Williams, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A C Jones
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19.01.21. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Dosbarthwyr bagiau cwn** - Mae'r Clerc yn disgwyl I'r Cyngor Sir gosod y dosbarthwyr
4.2	**Cyfoeth Naturiol Cymru –** Darllenwyd ymateb gan CNC yn cadarnhau nad oeddent yn barod i osod bin gwastraff wrth fynedfa Llyn Cefni gan ei fod yn erbyn eu polisi.
4.3	**Cysgodfan Bws Talwrn -** Dywedodd y Clerc fod Shelter Solutions o Knowsley wedi dweud y bydd y coesau ar gyfer y lloches newydd yn cael eu cryfhau. Mae'n ofynnol i'r cyngor cymunedol dalu £ 250 i'r Cyngor Sir am drwydded gwaith stryd a bydd angen talu am oleuadau traffig. Cytunwyd y bydd angen gwneud cais gydag yswirwyr y cyngor.
4.4	**Lon Llangwyllog – Llynfaes** - Bydd y Cynghorydd Arfon wyn yn trefnu i dynnu lluniau a'u hanfon at y Clerc.
4.5	**LonTy'n Llan – Marian, Talwrn** – Ymateb y Cyngor Sir - Bydd y darn lon yma yn cael ei hystyried pan fydd rhaglenni newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn cychwyn yn Ebrill 2021 ac yn cael eu paratoi yn y dyfodol agos.
	Llofnod…….Cadeirydd 16.03.21

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	**LonTy'n Llan – Marian, Talwrn –** gweler 4.5
5.2	**Damweiniau sgwar Talwrn** – Yn dilyn cwynion am damwain arall yn sgwar Talwrn, mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir - *Cyfeiriaf at eich e-bost dyddiedig 9 Chwefror 2021 ynghylch ar ddamwain diweddar ar sgwâr Talwrn wedi i gerbyd fethu a stopio gan wyro ar draws y gyffordd.* *Rwyf yn ymwybodol fod yr heddlu wedi mynych y digwyddiad ac felly bydd y Gwasanaeth Priffyrdd yn cael trafodaeth bellach gyda swyddog diogelech y ffyrdd yr heddlu ynghylch ac amgylchiadau'r ddamwain yma. Wedi bod ar safle ac mewn cydweithrediad gyda'r heddlu byddwn yn gweld a oes angen mesurau ychwanegol i wella diogelwch ar y gyffordd yma.* *Mi wani adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned canlyniadau'r arolwg fydd yn cymryd lle.* Cytunwyd I gofyn am cyfarfod ar y safle gyda cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned.
	Cynllunio
5.3	**HHP/2021/22 Penterfyn, Llanerchymedd -** Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i nodi nad yw trigolion lleol wedi derbyn hysbysiad o'r cais cynllunio
5.4	**Cytundeb Gors Bodeilio** – Ymateb y Cyngor Sir: *Gallwn gadarnhau nad yw'r Cyngor yn barti i unrhyw gytundeb yn ymwneud a Chors Bodeilio ac felly nid ydyw yn meddiannu unrhyw ddogfennaeth mewn perthynas â'r tir* Cytunwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr a Mrs Jones, Bryn Gors, Talwrn i ofyn am gopi o'r cytundeb
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Medrwn Mon – mapio -** I drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf
6.2	**Cyfoeth Naturiol Cymru –** gweler 4.2
6.3	**Shelter Solutions –** gweler 4.3
6.4	**Unllais Cymru –** Canllawiau draft Newydd y Cod Ymddygiad – mae'r aelodau yn cytuno a'r canllawiau
6.5	**Mrs Orme -** damweiniau sgwar Talwrn – gweler 5.2
	Llofnod…….Cadeirydd 16.03.21

7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Contract torri gwair 2021 –** Mae'r Clerc wedi derbyn tri pris: G Jones £1290, R Williams £1000, G Hughes £1200. Cytunwyd I dderbyn pris R Williams
8.2	**Archwilydd mewnol** - Cytunwyd i dderbyn pris Cyngor Sir Gwynedd (yr un fath â'r llynedd)
8.3	**Mynwent Llanddyfnan** - Mae'r Clerc wedi derbyn cwyn ynglŷn â'r bin yn llawn. Mae wedi bod yno i dacluso ac mae wedi trefnu i'r contractwr glaswellt am y flwyddyn i ddod I drefnu i fynd â'r bin i'r briffordd i'w wagio bob 3 wythnos
8.4	**Ffosydd am Lôn Ffinnan** - Mae'r ffosydd yn gorlifo. Bydd y Clerc yn dod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir
8.5	**Glaswellt rhwng y tai cyngor a'r hen eglwys Talwrn –** bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir am y Gwaith sydd angen ei wneud.
8.6	**Dwr ar lôn Benllech – Llanddyfnan -** Bydd y Clerc yn dod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir
8.7	**Carthffosiaeth Talwrn -** Dywedodd y Cynghorydd E Williams ei fod yn mynd i ysgrifennu at Adran Iechyd yr Amgylchedd ynghylch y problemau carthffosiaeth yn Nhawrn. Bydd yn anfon copi o'r llythyr at y Cyngor Cymuned
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Lôn Hendre Tregaian - Rhosmeirch
9.2	Scaffolding a goleuadau traffig Maenaddwyn
9.3	Broadband
9.4	Damwain Llangwyllog
	Llofnod…….Cadeirydd 16.03.21